

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

4.5.18

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Presenoldeb - Hoffwn dynnu eich sylw at y wybodaeth sydd ar y pamffled presenoldeb. Mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig y dylech fod yn ymwybodol ohono. A fyddech cystal â chymryd ychydig o funudau i'w darllen. Diolch.

Mae presenoldeb uchel yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol. Rydym yn monitro ac mewn cyswllt gyda chi pan fydd ffigyrau presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Rydym bob amser yn barod i drafod gyda chi unrhyw ffordd y gallwn gynnig cefnogi os oes problem a ran presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol. Pan mae eich plentyn yn absennol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda.**

Cyrraedd yn hwyr - Yn dilyn cyfnod o fonitro prydlondeb disgyblion yn cyrraedd yr ysgol, gyda nifer fach o ddisgyblion sydd yn gyson yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol, heb oedolyn yn bresennol i'w tywys ac i roi rheswm dros pam fod y plentyn yn hwyr. O hyn ymlaen byddwn yn cofnodi enwau pob plentyn sydd yn cyrraedd yn hwyr ac yn defnyddio'r wybodaeth fel rhan o'n trafodaethau tymhorol gyda Swyddog Cefnogi Addysg y Sir. Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol, ar ôl 9.00, bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi cyflwyno eglurhad i aelod staff drwy gyntedd yr ysgol gan roi rheswm dros pam fod eich plentyn yn hwyr. Mae gennym fel ysgol gyfrifoldeb am iechyd a lles pob plentyn, ac felly pan mae plentyn yn gyson yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr bydd yn codi pryder i ni. Cofiwch, unwaith y mae'r plant wedi ei thywys i mewn i'r dosbarthiadau yn dilyn y gloch am 8.55, bydd gwersi y dydd yn cychwyn, ac rwy'n siŵr na fyddech fel rhieni/ofalwyr am i'ch plentyn fethu allan ar unrhyw brofiadau a gwybodaeth a gyflwynir ar gychwyn y wers.

CRhA - Cynhelir y cyfarfod CRhA nesaf ar nos Fercher Mai 23ain am 6 o'r gloch. Byddwn yn trafod trefniadau ar gyfer ffair Haf yr ysgol a gynhelir ar ôl ysgol ar nos Fercher Mehefin 13eg.

Diwrnod Di-wisg ysgol - Bydd dydd **Gwener Mai 25ain** yn ddiwrnod di-wisg ysgol. Gofynnir am gyfraniadau tuag at y ffair Haf. Gall rhain gynnwys cyfraniadau tuag at stondinau tombola a theganau.

Byrbryd Bore - Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach y Sir. Rydym yn annog y plant i fwyta'n iach gan ddod a byrbrydau iachus ar gyfer amseroedd egwyl. Gofynnwn i'r plant i beidio â dod a chreision, siocled a fferins fel byrbryd bore neu brynhawn, yn ogystal â diodydd melys a pop.

Noson Diogelwch y We NSPCC - Hoffwn eich atgoffa am y noson Ddiogelwch y We ar gyfer rhieni/ofalwyr a gynhelir am 3.15 ar nos Fawrth Mai 8fed. Os ydych yn bwriadu mynychu, ond heb hysbysu'r ysgol, yna a fyddech a gadael i'r athro/awes ddosbarth wybod. Cofiwch fod hon yn sesiwn i rieni/ofalwyr yn unig, ac ni fydd plant yn gallu bod yn bresennol yn ystod y sesiwn.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth